YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

DYDD GWENER, 12 MAI 2023

PRESENNOL : Y Cynghorydd G. Davies(Aelod Cabinet).

Hefyd yn bresennol:
S John, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion a Derbyn Disgyblion
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.20 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 24 MAWRTH 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2023, gan ei fod yn gywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Gwahoddwyd enwebiadau gan y Cadeirydd, Pennaeth yr Ysgol ac Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Nodwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, fod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei h/ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gall yr holl Gynghorwyr Sir ar ôl cael eu hethol bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol mewn ysgol lle nad oedd lle gwag, ac os byddai gormod o lywodraethwyr byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr yr Awdurdod Lleol fyddai angen rhoi'r gorau i'r swydd.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Ffederasiwn Beca – Bro Brynach (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr O Young
Dafen (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr G Edwards
Llanedi (1 lle gwag – o 25 Tachwedd 2023 – 1 enwebiad)	Mr G Owen
Teilo Sant (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd R Jones

Ysgol Uwchradd	Penodiadau
Ffederasiwn Bryngwyn – Glan y Môr (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr DW Hugh Richards

4. PENODI AELODAU'R FFORWM DERBYNIADAU ADDYSG

Cafodd yr Aelod Cabinet adroddiad ynghylch penodi'r Aelodau Addysg i Fforwm Derbyniadau Sir Gaerfyrddin. Esboniwyd bod yr aelodau craidd a benodwyd yn 2017 wedi cael eu hailbenodi hyd at fis Hydref 2022, fel y manylwyd yng Nghyfarfod Penderfyniadau'r Aelodau ar gyfer Addysg a Phlant a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 (gweler cofnod 3).

Eglurwyd, er bod y gwaith o recriwtio Fforwm Derbyniadau newydd wedi'i ohirio oherwydd prinder staff ac absenoldeb hirdymor ymhlith staff yn y Tîm Derbyniadau, roedd y broses wedi'i chwblhau ers hynny lle derbyniwyd digon o enwebiadau ar gyfer pob categori ac eithrio'r cynrychiolwyr cymunedol. Yn hyn o beth, nodwyd y byddai ymarfer arall yn cael ei gynnal ym mis Mai 2023 i recriwtio cynrychiolaeth gymunedol ychwanegol.

PENDERFYNWYD gwneud y penodiadau canlynol i'r Fforwm Derbyniadau Addysg, am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd,

<u>Cynrychiolydd Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru:</u>
Y Parchedig John Cecil, Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol

<u>Cynrychiolydd Esgobaethol yr Eglwys Gatholig Rufeinig.</u>
Mr Paul White, Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol

<u>Cynrychiolwyr y Penaethiaid Ysgol - Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir:</u>
Mr Gethin Richards
Mrs Non Neave
Mr Julian Kennedy

Cynrychiolwyr y Penaethiaid Ysgol: Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir:
Mr Andrew Hurley

Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr:
Ms Carly Lee
Ms Carol Seabourne

Cynrychiolwyr Cymunedol Lleol:
Ms Sarah Georgina Jones

_____ **_____**
CHAIR **DATE**